Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council

# Archwiliad Iechyd Canol Trefi 2022

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Archwiliad Iechyd Canol Trefi 2022

## Cynnwys


1. Cefndir 3

2. Methodoleg 5

3. Cynllun Datblygu Lleol: Cynllunio manwerthu a data empirig 6

4. Y Sefydliad Rheoli Lle: Model "High Street UK 2020" 9

5. Y Sefydliad Rheoli Lle: Cysyniad "Nodweddion Canol Trefi" 11

6. Cyngor Sir Ddinbych: Arolwg trigolion 2018 14

7. Geirfa 15

8. Ffynonellau 15

Atodiad 1 17

Corwen 18

Dinbych 25

Llangollen 32

Prestatyn 39

Rhuddlan 46

Y Rhyl 53

Rhuthun 60

Llanelwy 67

Atodiad 2 74

# Archwiliad Iechyd Canol Trefi 2022

## 1. Cefndir

Mae gan Sir Ddinbych amgylchedd adeiledig amrywiol a deniadol iawn gyda chymysgedd o ardaloedd trefol ar hyd yr arfordir, trefi marchnad yn Nyffryn Clwyd a dyffryn afon Dyfrdwy, a phentrefi yng nghefn gwlad gwledig. Mae gwella bywiogrwydd a hygyrchedd y lleoedd hynny nid yn unig yn hanfodol i hyrwyddo’r economi leol ond hefyd i feithrin sector twristiaeth cryf yn y sir.

Mae canol trefi bywiog yn amlbwrpas; h.y. maent yn cynnig cymysgedd o wasanaethau manwerthu, masnachol a chyfleusterau hamdden i breswylwyr ac ymwelwyr y tu hwnt i oriau agor y siop draddodiadol. Mae lleoedd yn cael eu gwella gan adeiladau sy’n cael eu cynnal a’u cadw’n dda, digon o fannau gwyrdd a mynediad rhwydd gan drafnidiaeth gyhoeddus er mwyn cyfrannu at ‘ymdeimlad o le’, hunaniaeth a lles. Yr amcan yw creu cyfleoedd busnes newydd yn barhaus sy’n arwain at arallgyfeirio yn y ddarpariaeth leol ac, felly, lleihau’r ddibyniaeth ar sectorau economaidd unigol.

Yn 2018, cynhaliodd y Cyngor yr archwiliad iechyd canol tref cyntaf er mwyn cael gwell dealltwriaeth o’r manwerthu a’r gwasanaethau sydd ar gael, y seilwaith trafnidiaeth a nifer yr ymwelwyr yn lleol. Roedd yr adroddiad dilynol yn ategu’r gwaith arolygu blynyddol ar feddiannaeth yng nghanol trefi ac yn ceisio darparu sylfaen dda ar gyfer archwiliadau iechyd yn y dyfodol. Mae pandemig Covid-19 a gostyngiad pellach yn y ddarpariaeth draddodiadol ‘brics a mortar’ blaenorol yn cyflwyno heriau newydd i weithwyr proffesiynol ym maes cynllunio, busnesau lleol a strategaethau canol trefi cydnerth.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi’r fframwaith polisi ar gyfer gwneud penderfyniadau a chynllunio strategol o ran creu canol trefi llwyddiannus a chynaliadwy yng Nghymru. Ategir hyn gan Nodyn Cyngor Technegol 4 “Adwerthu a Datblygu Masnachol” sy’n annog awdurdodau cynllunio lleol i gynnal archwiliadau iechyd canol trefi rheolaidd gan eu bod yn rhoi syniad o effeithiolrwydd polisïau ac effaith datblygiadau mawr ar fywiogrwydd a hyfywedd.

# Archwiliad Iechyd Canol Trefi 2022

Ers cyhoeddi’r archwiliad iechyd canol trefi cyntaf yn 2018, mae Llywodraeth Cymru (“LlC”) wedi cyflwyno ‘Cymru’r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040’ (Chwefror 2021), a ddaeth yn rhan o’r cynllun datblygu ar gyfer y sir, ac yn nodi ei flaenoriaethau ar gyfer cyfnod adfer ar ôl pandemig Covid-19 yn ‘Adeiladu Lleoedd Gwell: Y System Gynllunio yn Creu Dyfodol Fwy Cydnerth a Llewyrchus’ (Gorffennaf 2020). Mae’r ddwy ddogfen yn arwain at newid polisi o ran cydnabod pwysigrwydd cynyddu defnydd tir ategol i gefnogi mynd i’r afael ag effeithiau niweidiol dirywiad mewn manwerthu ar ganol trefi. Bydd archwiliadau iechyd canol trefi yn y dyfodol yn hanfodol er mwyn canfod yr effeithiau a’r cyfleoedd sy’n deillio o’r newidiadau polisi hyn.

# Archwiliad Iechyd Canol Trefi 2022

## 2. Methodoleg

Mae Nodyn Cyngor Technegol 4 Llywodraeth Cymru yn nodi ystod o ddangosyddion i brofi hyfywedd a bywiogrwydd canol trefi fel lefelau swyddi gwag a ffigurau ymwelwyr. Anogir awdurdodau lleol i ychwanegu atynt gyda data sydd ar gael yn rhwydd nad oes angen llawer iawn o amser ac adnoddau ar gyfer ei gasglu. Cyhoeddodd y Gymdeithas Llywodraeth Leol lawlyfr ar adfywio canol trefi ar gyfer partïon â diddordeb [gweler 'Revitalising town centres: a handbook for council leadership' (2018), https://www.local.gov.uk/publications/revitalalising-town-centres-handbook-council leadership

Cymerodd Sefydliad Rheoli Lle Prifysgol Metropolitan Manceinion ran yn y prosiect 'High Street UK2020' a sbardunodd ymchwil wyddonol bellach i ddehongli ffigurau ymwelwyr a arweiniodd at ddatblygu 'Nodweddion Canol Trefi' [gweler y Sefydliad ar gyfer Creu Lleoedd 'Bringing Big Data to Small Users', www.placemanagement.org/research/footfall-signatures]. Mae'r dull gweithredu'n wahanol i arolygon canol tref traddodiadol, gan ganolbwyntio ar ffigurau ymwelwyr i werthuso pa mor ddeniadol yw canol tref gan yr holl fathau o wasanaethau/defnydd tir sydd ar gael yn hytrach nag edrych yn bennaf ar bresenoldeb yr hyn sy'n cael ei ystyried yn fannau manwerthu hanfodol mewn tref o faint penodol. Mae symud sylw o siopau i bob defnydd yng nghanol trefi yn cyd-daro â'r newidiadau diweddaraf ym mholisi cynllunio Cymru.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar sail y ffynonellau data, arolygon a dulliau canlynol:

- Ystadegau a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, StatsCymru a'r Cyngor;
- Ffigurau wedi'u casglu o gownteri ymwelwyr lleol;
- Canlyniadau arolygon blynyddol canol tref Sir Ddinbych;
- Data ategol a gafwyd mewn perthynas â barn preswylwyr a fynegwyd yn Arolygon Preswylwyr Sir Ddinbych 2015 a 2018;
- Y Sefydliad Rheoli Lle: nodweddion canol trefi - dadansoddiad empirig o ffigyrau ymwelwyr o'i gymharu â mathau o lofnodion unigol; a
- Mae'n cynnwys canol trefi a dinasoedd lleol Corwen, Dinbych, Llangollen, Prestatyn, Rhuddlan, y Rhyl, Rhuthun a Llanelwy.

# Archwiliad Iechyd Canol Trefi 2022

## 3. Cynllun Datblygu Lleol: Cynllunio manwerthu a data empirig

### Astudiaeth manwerthu Sir Ddinbych 2018

Mae'r Cyngor wedi dechrau paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol nesaf, sy'n nodi ble a faint o ddatblygiad fydd yn digwydd yn ystod cyfnod y cynllun. Rhaid paratoi polisi lleol ar sail tystiolaeth ac yn unol ag amcanion cenedlaethol. Comisiynwyd Astudiaeth Manwerthu Sir Ddinbych 2018 gyda'r amcan o nodi'r capasiti manwerthu presennol a'r galw yn y dyfodol yn unol â lefelau twf rhagamcanol, datblygiad preswyl disgwyliedig a thwf twristiaeth. Mae ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor. Dolen: www.denbighshire.gov.uk/ldp.

Paratowyd yr astudiaeth cyn pandemig Covid-19, ac mae wedi nodi tair tuedd sy'n debygol o ddylanwadu ar y galw yn y dyfodol mewn manwerthu:

1. Twf Poblogaeth - Mae disgwyl i bob ardal weld twf yn y boblogaeth, yn enwedig yn ardal Elwy lle mae'r Safle Strategol Allweddol wedi'i ddyrannu ar gyfer adeiladu tai i oddeutu 5,000 o breswylwyr newydd neu gynnydd o 33%;
2. Gwerthiant Ar-lein - Bydd gwerthiant ar-lein yn parhau i gynyddu, er ei fod yn arafach nag yn y blynyddoedd blaenorol. Manwerthu hwylus + 10 mlynedd = gostyngiad o 1.5% o ganlyniad i werthu ar-lein a Chymhariaeth + 10 mlynedd = gostyngiad o 2.9% o ganlyniad i werthu ar-lein; a
3. Thueddiadau Twristiaeth – Bu cynnydd o 20% yn nifer yr ymwelwyr â'r sir rhwng 2004 a 2016, ond mae twristiaeth yn sector cyfnewidiol, anodd iawn ei ragweld ac, felly, mae'r galw am fanwerthu wedi cael ei gadw'n gyson wrth edrych 10 mlynedd i'r dyfodol.

# Archwiliad Iechyd Canol Trefi 2022

Gan gyfuno'r tair tuedd a ragwelir gyda'r capasiti adwerthu presennol a phatrymau siopa yn y Sir, daethpwyd i'r casgliad:

- Arfordir Sir Ddinbych – Ceir ychydig o orgyflenwad o siopau hwylus ond gyda'r twf posibl yn y boblogaeth dros y 10 mlynedd nesaf yn cael ei ystyried, mae potensial ar gyfer manwerthu ychwanegol. Nid yw gorgyflenwad o fanwerthu cymharol, yn seiliedig ar y boblogaeth bresennol a'r rhagolwg 10 mlynedd, yn rhagweld gofyniad i gynyddu maint y manwerthu cymharol, pan fydd yr holl ddatblygiadau arfaethedig wedi digwydd; a
- Sir Ddinbych Wledig – Roedd capasiti i gynyddu nifer y siopau hwylus yn Sir Ddinbych Wledig, fodd bynnag, mae'r Aldi diweddar yn Ninbych wedi bodloni'r galw hwn, ac nid yw'r rhagolwg yn rhagweld cynnydd yn y galw dros y 10 mlynedd nesaf. Mae Dinbych a Rhuthun yn perfformio'n is na'u potensial, a thros y 10 mlynedd nesaf mae cryn dipyn o gapasiti ar gael mewn gofod cymharol, er mwyn helpu i wasanaethu'r boblogaeth yn well yn y Sir.

Er nad oedd yr astudiaeth manwerthu yn ymchwilio'n benodol i ganol trefi unigol, mae canfod y galw yn y dyfodol yn rhoi syniad da o ba fath o fanwerthwyr, gan gynnwys y galw am eiddo a lleoliad a ffafrir, fydd â diddordeb yn Sir Ddinbych er mwyn i'r Cyngor allu paratoi prosiectau adfywio cyfatebol, strategaethau canol trefi a chysyniadau trafnidiaeth lleol.

Gan fod newid sylfaenol wedi bod yn ymddygiad defnyddwyr a'r sector manwerthu cyffredinol dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'r Cyngor yn paratoi asesiad canol tref newydd sy'n cynnwys manwerthu fel elfen hanfodol o gynllunio ar gyfer yr ardaloedd hyn yn y dyfodol.

# Archwiliad Iechyd Canol Trefi 2022

## Cyngor Sir Ddinbych: Arolwg blynyddol canol tref

Mae'r Cyngor wedi bod yn cynnal arolygon blynyddol o ganol trefi ers 2002. Eu pwrpas yw nodi faint o unedau manwerthu, allfeydd gwasanaeth ac eiddo gwag sydd ym mhob un ohonynt; nodi tueddiadau a chefnogi ymdrechion adfywio yn ogystal â phenderfyniadau ar gynigion cynllunio. Cofnodir yn bennaf a yw'r uned a arolygwyd yn un ar gyfer manwerthu hwylus neu gymharol, allfa gwasanaeth, mewn defnydd preswyl neu'n parhau'n wag.

Mae Siart 1, gweler isod, yn dangos canran y defnydd o ganol trefi unigol mewn perthynas â chyfanswm nifer yr unedau yng nghanol y dref o fis Ionawr 2022 ymlaen. Mae mapiau o ffiniau canol trefi, ynghyd â chanlyniadau'r arolwg diweddaraf, ar gael yn Atodiad 2.

Siart 1: Canran y defnyddiau o'i gymharu â phob uned canol tref ym mis Ionawr 2022




Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2022).

# Archwiliad Iechyd Canol Trefi 2022

## 4. Y Sefydliad Rheoli Lle: Model "High Street UK 2020"

Roedd Prosiect Stryd Fawr y DU 2020 yn rhoi sylw mawr i'r effaith yr oedd newidiadau i fanwerthu yn ei gael ar ganol trefi a dinasoedd yn y Deyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.  Yr amcan oedd nodi'r blaenoriaethau a oedd yn cael yr effaith fwyaf a lle'r oedd gan sefydliadau lleol y mwyaf o reolaeth drostynt yng ngoleuni llai o adnoddau ar gael.

Nodwyd pump ar hugain o flaenoriaethau drwy ddefnyddio'r dull Delphi, sy'n seiliedig ar gyfyngu ar nifer y blaenoriaethau drwy holiaduron dienw, cyfuno ymatebion a chyrraedd consensws ymysg cyfranogwyr o ragor o rowndiau ymgynghori. Roedd cyfranogwyr o wahanol broffesiynau'n cynnwys rheolwyr canol trefi, cynrychiolwyr manwerthu, swyddogion cyngor a grwpiau â buddiant. Cafodd y 25 blaenoriaeth olaf eu profi wedyn mewn 10 canol tref ledled y Wlad, gan gynnwys Wrecsam yng Ngogledd Cymru.

# Archwiliad Iechyd Canol Trefi 2022

Mae’r rhestr isod yn nodi’r 25 blaenoriaeth. Gallant helpu’r Cyngor i wneud penderfyniadau ynghylch ble i osod adnoddau prin er y budd mwyaf. Fodd bynnag, nid yw llwyddiant yn cael ei warantu, gan gydnabod bod pob canol tref yn unigryw o ran ei heriau ei hun.

- Oriau gweithgareddau (oriau agor, economi fin nos)
- Rhwydweithio a phartneriaeth gyda Chynghorau
- Man hamdden (gofod agored)
- Ymddangosiad (gweledol, glendid)
- Amrywiaeth (cymysgedd o denantiaid, fformatau eraill)
- Rhwystrau rhag ymuno (manwerthwyr i ymuno â’r farchnad)
- Adwerthwyr (cynnig, cynrychiolaeth)
- Cerdded (cerdded / llif, teithiau cysylltiedig)
- Cadwyn vs annibynnol
- Gweledigaeth a strategaeth (arweinyddiaeth, cydweithio)
- Adloniant a hamdden
- Diogelwch / troseddu
- Profiad (ansawdd, boddhad, bod yn gyfarwydd)
- Bod yn atyniadol
- Y gallu i fyw (cysylltedd, swyddogaeth luosog/ unigol)
- Rheoli (canol, rheoli lle)
- Sicrwydd lle (ymddiriedaeth manwerthu, awyrgylch)
- Gallu i addasu (hyblygrwydd, darnio, maint)
- Nwyddau (ansawdd nwyddau, amrywiaethau)
- Hygyrchedd
- Datblygu siopau (uwchraddio, ailfodelu)
- Hanfodolion (parcio ceir, mwynderau, cyfleusterau)
- Marchnata lleoedd
- Cymhariaeth/ cyfleustra
- Siopau angor

Ffynhonnell: High Street UK 2020 – Nodi ffactorau sy’n dylanwadu ar fywiogrwydd a hyfywedd

# Archwiliad Iechyd Canol Trefi 2022

## 5. Y Sefydliad Rheoli Lle: Cysyniad “Nodweddion Canol Trefi”

Y mesur sy’n cael ei gydnabod amlaf o lwyddiant (neu fethiant) canol trefi yw faint o ofod llawr sy’n cael ei ddefnyddio gan nifer o fanwerthwyr neu bresenoldeb siopau arbenigol yn y canol. Fodd bynnag, nid dim ond siopau manwerthu sy’n eu hail-ddefnyddio wrth i storfeydd cadwyni adael unedau, gellir eu defnyddio gan wasanaethau, defnydd preswyl, neu unrhyw ddefnydd ‘pop up’ arall. Dylid canolbwyntio felly ar gefnogi cymeriad mwy aml-swyddogaethol canol trefi.

Yn cyd-fynd yn agos â phrosiect High Street UK 2020, cyflwynodd y Sefydliad Rheoli Lle ffordd newydd o ddosbarthu canol trefi. Mae hyn yn seiliedig ar gasglu ffigurau am nifer yr ymwelwyr, cyfuno cyfansymiau misol, a chynhyrchu graffiau bob blwyddyn. Er nad dyma’r unig ffordd o ddosbarthu canol trefi, mantais y dull yw pa mor hawdd yw casglu data a chynhyrchu graffiau niferoedd. Mae ymchwil wedi arwain at ganfod bedair nodwedd (gweler tabl 2): cymhariaeth, gwyliau, arbenigedd ac amlswyddogaethol.

Tabl 2: Nodweddion Canol Trefi

| Graff | Disgrifiad |
|---|---|
|  | Mae canolfannau siopa cymharol yn tueddu i fod yn drefi a dinasoedd mwy ac un dynodwr allweddol yw mis Rhagfyr, sef eu cyfnod prysuraf o ran ymwelwyr sy’n cyd-daro â’r Nadolig. |
|  | Mae trefi gwyliau’n brysurach yn ystod misoedd yr haf ac mae nifer yr ymwelwyr yn gostwng dros y gaeaf. |
|  | Mae’n ymddangos bod canolfannau arbenigedd yn ‘hybrid’ rhwng cymharol a gwyliau. |
|  | Mae trefi aml-swyddogaeth yn tueddu i fod â phroffil mwy gwastad drwy gydol y flwyddyn. |

Ffynhonnell: Mumford, Parker, Ntounis and Dargan (2017) - A clustering study to verify four distinct monthly footfall signatures: a classification for UK retail centres; Adroddiad technegol

# Archwiliad Iechyd Canol Trefi 2022

Mae’n amlwg bod modd neilltuo canolfannau unigol i un o’r dosbarthiadau, a gall fod yn anodd cyfateb i rai eraill. Mae hyn oherwydd eu bod yn rhannu nodweddion tebyg ond bod ganddynt batrymau unigryw o ran nifer yr ymwelwyr.

Manteision cydnabyddedig defnyddio’r cysyniad yw (1) Bydd defnyddio’r gymhariaeth newydd, gwyliau, arbenigedd a dosbarthiadau amlswyddogaeth yn iaith polisi a chanllawiau yn cyflymu’r broses o fabwysiadu mesurau a dosbarthiadau perfformiad seiliedig ar weithgaredd ar draws y proffesiwn cynllunio, y sector adfywio trefol a llywodraeth leol, a (2) Bydd annog lleoliadau i fesur nifer yr ymwelwyr a sefydlu eu nodwedd yn arwain at strategaethau rheoli a marchnata mwy realistig ac effeithiol.

Cafodd y ffigurau ar gyfer nifer yr ymwelwyr lleol ar gyfer canol trefi eu dadansoddi a’u cyflwyno yn y Gwiriad Iechyd Canol Trefi 2018.  Ni fu asesiad o’r data a gofnodwyd yn defnyddio’r cysyniad arwydd rhwng 2017 a 2021 oherwydd bod y ffigurau yn rhannol gamliwiedig yn sgil y cyfyngiadau yn ystod y cyfnod clo a methiannau cyfrif unigol.  Felly gwneir unrhyw eglurhad o ran yr arwydd tref a ddynodwyd ar sail y canlyniadau o’r gwiriad iechyd blaenorol.  Mae’r ffigurau ar gyfer nifer yr ymwelwyr yn parhau i gael eu cofnodi, a’r gobaith yw y byddant yn sail ar gyfer asesiadau ‘arwydd’ y dyfodol.

# Archwiliad Iechyd Canol Trefi 2022

## 6. Cyngor Sir Ddinbych: Arolwg trigolion 2018

Cynhelir arolygon yn aml i dderbyn adborth gan breswylwyr ar faterion lleol, i geisio barn ar brosiectau ac i wella gwasanaethau. Mae’n cynnwys cwestiynau am ddiogelwch cymunedol, hygyrchedd gwasanaethau a’r defnydd o ganol trefi. Daw’r data diweddaraf sydd ar gael o’r flwyddyn 2018.

Yn 2018, dywedodd trigolion eu bod yn cael trafferth cael gafael ar siopau a gwasanaethau masnachol oherwydd problemau gyda thrafnidiaeth (29%), band eang (41%) a ffonau symudol (40%). Mae canran hyd yn oed yn uwch o drigolion sy’n cael trafferth cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus lleol oherwydd trafnidiaeth (31%) a band eang (44%).

Nid oedd bodlonrwydd â chynnal a chadw strydoedd mewn trefi a phentrefi wedi gweld fawr ddim newid, os o gwbl, rhwng 2011 (61%) a 2013 (62%). Yn 2015, roedd y ffigur a adroddwyd yn 54% cyn gostyngiad dramatig i 45% yn 2018. Roedd y rhan fwyaf o’r trigolion (63%) yn fodlon ar lefel gyffredinol glendid y strydoedd yn eu hardal leol. Mae hyn yn ostyngiad o 68% yn 2015 a 73% yn 2013.

# Archwiliad Iechyd Canol Trefi 2022

## 7. Geirfa

Nwyddau Cymharol (Manwerthu) - Bwyd a diod heb alcohol, tybaco, diodydd alcoholig, papurau newydd a chylchgronau, a nwyddau cartref nad ydyn yn para.

Nwyddau Cyfleus (Manwerthu) - Dillad, esgidiau, dodrefn, teclynnau i'r cartref, offer, nwyddau meddyginiaethol, gemau a theganau, llyfrau a nwyddau swyddfa, gemwaith ac eiddo personol arall.

## 8. Ffynonellau


Cyngor Sir Ddinbych, 2013. Cynllun Datblygu Lleol 2006 – 2021;

Cyngor Sir Ddinbych, 2018. Astudiaeth Manwerthu 2018 (Capasiti Manwerthu);

Cyngor Sir Ddinbych, 2018. Arolwg Preswylwyr;

Cyngor Sir Ddinbych, 2022. Arolwg blynyddol canol trefi;

High Street UK 2020, Crynodeb o'r Prosiect. Ar gael yn: www.placemanagement.org/special-interest-groups/managing-places/town-and-city-centresdowntowns/town-centre-policy-and-research/hsuk2020/

Mumford, Parker, Ntounis and Dargan, 2017. A clustering study to verify four distinct monthly footfall signatures: a classification for UK retail centres Technical Report 1 (Version 5). Ar gael yn: http://placemanagement.org/media/90636/monulysignatureclidingv3.pdf

Parker, Ntounis, Quin and Millington 2017. High Street UK 2020 Project Report: Identifying factors that influence vitality and viability. Ar gael yn: www.researchgate.net/publication/298921227

Llywodraeth Cymru, 2016. Nodyn Cyngor Technegol 4 'Canolfannau Manwerthu a Masnachol;

Llywodraeth Cymru, 2021. Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040;

Llywodraeth Cymru, 2021. Polisi Cynllunio Cymru – Argraffiad 11.

# Archwiliad Iechyd Canol Trefi 2022

## Cyswllt

Cyngor Sir Ddinbych

Cynllunio Strategol a Thai

Ffôn: 01824 706916

E-bost: planningpolicy@denbighshire.gov.uk

# Atodiad 1

## Arolygon tref a dinas Sir Ddinbych

# Corwen



# Arolygon tref a dinas Sir Ddinbych: Corwen

## Cyflwyniad

Mae Corwen yn dref fach ar lannau deheuol afon Dyfrdwy yng Ngogledd Cymru. Amcangyfrifwyd bod 2,354 o bobl yn byw yn yr ardal ar 30 Mehefin 2020. Nodweddir yr economi leol gan dwristiaeth, gweithgynhyrchu a ffermio.

### Map canol tref




### Ystadegau economaidd-gymdeithasol

Mae incwm canolrifol aelwyd yn £27,355 yn ardal marchnad dai leol ‘Corwen a Llangollen; o’i gymharu â £27,498 yn Sir Ddinbych;

Roedd tua 1,064 o bobl 3 oed a hŷn yn gallu siarad Cymraeg yn yr ardal yn 2011. Mae hyn yn cyfateb i 45.7% o’r boblogaeth 3 oed a hŷn.

# Arolygon tref a dinas Sir Ddinbych: Corwen

## Nodwedd y dref a’r nifer sy’n ymweld bob mis

Nodwedd: Gwyliau;

Beth mae hyn yn ei olygu: Canolbwyntio ar y ddarpariaeth twristiaeth yn yr ardal (tymor byr a thymor hir);

Angor: tirwedd, cyfeiriadau hanesyddol at Owain Glyndŵr;

Dylid canolbwyntio strategaethau ar: Denu ymwelwyr heb esgeuluso anghenion y preswylwyr




Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2022).

# Arolygon tref a dinas Sir Ddinbych: Corwen

## Arolwg blynyddol canol tref

Mae’r Cyngor yn cynnal arolwg blynyddol o brif ddefnyddiau canol trefi yng Nghorwen. Cofnodwyd ym mis Ionawr 2022 fod 7 uned manwerthu cymharol, 4 uned adwerthu cyfleustra, 16 o unedau gwasanaeth, 4 uned breswyl, 5 canolfan arall a 9 uned wag. Mae’r siart “Defnyddiau Canol Tref Corwen (Ionawr 2022)” yn dangos yr un canlyniadau ond mewn canrannau o’r holl unedau (45 i gyd). Mae Atodiad 2 i Archwiliad Iechyd Canol Tref DCC 2022 yn cynnwys map manwl ar gyfer canol tref Corwen sydd hefyd yn cyflwyno'r canlyniadau'n ofodol.

Er bod nifer yr unedau gwag wedi bod yn gostwng yn araf ers 2016, mae gan canol tref Corwen dal i fod un o’r canrannau uchaf o unedau gwag yn y Sir; yn hafal â Dinbych ac ychydig yn is na’r Rhyl yn y Gogledd. Gweler y siart “Unedau gwag yng nghanol tref Corwen 2002 – 2021” am fanylion. O ran y ddarpariaeth adwerthu, mae nifer yr unedau cymharol yn fwy na nifer yr unedau cyfleustra o 7 i 4.

# Arolygon tref a dinas Sir Ddinbych: Corwen




Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2022).




Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2022).

Gwerthiant – Nifer yr unedau manwerthu a werthwyd ers 2018: 1; Pris fesul troedfedd sgwâr (os yw'n cael ei ddatgelu): £140.98 (Ffynhonnell: CoStar Group, Mehefin 2022);

Prydlesi – Rhent a gafwyd fesul troedfedd sgwâr: £13.25; Eiddo ar y farchnad: 8 mis; Hyd y brydles: 60 mis; Misoedd rhydd o rent: 3 (Dim nodyn: mae'r holl ffigurau ar gyfer cyfrifiadau Sir Ddinbych a 'Canolrif'; Ffynhonnell: CoStar Group, Mehefin 2022)

# Arolygon tref a dinas Sir Ddinbych: Corwen

## Cryfderau, gwendidau, cyfleoedd, bygythiadau

Defnyddir dadansoddiadau SWOT i nodi cryfderau, gwendidau, cyfleoedd, bygythiadau mewn busnes neu sefydliad, gan gynnwys cydrannau gofodol, gyda’r nod o greu newid neu dwf.

### Cryfderau

Amrywiaeth o siopau bach yn y dref;

Arwyddion a gwybodaeth ar gael i dwristiaid;

Maes parcio am ddim yng nghanol y dref; a

Rheilffordd dreftadaeth yn cysylltu ag aneddiadau tuag at Langollen yn Nyffryn Dyfrdwy.

### Gwendidau

Lefel cyson o adeiladau gwag yng nghanol y dref;

Mae’r gefnffordd (A5) yn rhedeg drwy ganol y dref sy’n achosi lefelau uchel o sŵn a llygredd aer;

Byddai adeiladau unigol yn elwa o uwchraddio/peintio; a

Prinder llety

### Cyfleoedd

Hyrwyddo cyfleoedd cerdded mewn amgylchedd o ansawdd uchel;

Gwella’r ddarpariaeth twristiaeth i ymwelwyr sy’n cyrraedd ar reilffordd treftadaeth; a

Darparu llety o safon uchel yn y dref.

### Bygythiadau

Ni ddylai canolbwyntio ar dwristiaeth gael effaith negyddol ar y cynnig manwerthu / canol tref i bobl leol; a

Nifer cyfyngedig o lefydd parcio ar gael.

# Arolygon tref a dinas Sir Ddinbych: Corwen

## Beth i ganolbwyntio arno ar gyfer Corwen?

Gan fod nifer yr ymwelwyr yn nodi ‘nodwedd gwyliau’, mae’n bwysig canolbwyntio ar wasanaethu’r ymwelwyr i Gorwen (heb esgeuluso anghenion trigolion lleol) drwy:

Lleihau nifer yr adeiladau gwag;

Canolbwyntio ar wella amser aros yng nghanol y dref drwy wella’r ddarpariaeth o weithgareddau hamdden;

Gwella ansawdd ac amrywiaeth llety; a

Cynyddu nifer yr ymwelwyr sy’n cyrraedd gorsaf Corwen.

## Cysylltedd

Gorsaf Drenau: Oes (llinell dreftadaeth i Langollen);

Gwasanaethau Bysiau: Cysylltiad da â rhwydweithiau rhanbarthol a lleol;

Cysylltiad i’r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol: Yn cael ei baratoi (estyniad i lwybr rhif 85);

Llwybrau teithio llesol lleol: Yn cael ei baratoi

Nifer y mannau parcio ceir y Cyngor yn y dref: 178; llefydd i bobl anabl: 1

# Dinbych



# Arolygon tref a dinas Sir Ddinbych: Dinbych

## Cyflwyniad

Mae Dinbych yn dref farchnad hanesyddol yn Nyffryn Clwyd. Amcangyfrifwyd bod 9,951 o bobl yn byw yn yr ardal ar 30 Mehefin 2020. Mae prif atyniadau’r dref yn cynnwys Castell Dinbych, amgueddfa Dinbych yn yr hen Lys Ynadon, a nifer o adeiladau hanesyddol yng nghanol y dref ac o’i chwmpas.

### Map canol tref




### Ystadegau economaidd-gymdeithasol

Mae incwm canolrifol aelwyd yn £29,095 yn ardal marchnad dai leol ‘Dinbych a’r Gorllewin’; o’i gymharu â £27,498 yn Sir Ddinbych;

Roedd tua 3,410 o bobl 3 oed a hŷn yn gallu siarad Cymraeg yn yr ardal yn 2011. Mae hyn yn cyfateb i 35.3% o’r boblogaeth 3 oed a hŷn.

# Arolygon tref a dinas Sir Ddinbych: Dinbych

## Nodwedd y dref a'r nifer sy'n ymweld bob mis

Nodwedd: Amlswyddogaethol;

Beth mae hyn yn ei olygu: Cynnig cymysgedd cyfleus o wasanaethau a manwerthu, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar y gymuned leol a'r dalgylch cyfagos;

Angor: Cymysgedd o weithgareddau, gan ganolbwyntio ar waith, adwerthu, hamdden ac ati;

Dylid canolbwyntio strategaethau ar: Galluogi teithiau amlbwrpas i breswylwyr, gwella llety i dwristiaid a hyrwyddo amgylchedd adeiledig o ansawdd uchel.




Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2022).

# Arolygon tref a dinas Sir Ddinbych: Dinbych

## Arolwg blynyddol canol tref

Mae'r Cyngor yn cynnal arolwg blynyddol o brif ddefnyddiau canol trefi yn Ninbych Cofnodwyd ym mis Ionawr 2022 fod 26 uned manwerthu cymharol, 4 uned adwerthu cyfleustra, 36 o unedau gwasanaeth, 11 uned breswyl, 9 canolfan arall a 22 uned wag. Mae'r siart "Defnyddiau Canol Tref Dinbych (Ionawr 2022)" yn dangos yr un canlyniadau ond mewn canrannau o'r holl unedau (110 i gyd). Mae Atodiad 2 i Archwiliad Iechyd Canol Tref DCC 2022 yn cynnwys map manwl ar gyfer canol tref Dinbych sydd hefyd yn cyflwyno'r canlyniadau'n ofodol.

Er bod nifer yr unedau gwag wedi bod yn cynyddu ers 2017, mae gan canol tref Dinbych dal i fod un o'r canrannau uchaf o unedau gwag yn y Sir; yn hafal â Chorwen ac ychydig yn is na'r Rhyl yn y Gogledd. Gweler y siart "Unedau gwag yng nghanol tref Dinbych 2002 – 2021" am fanylion. O ran y ddarpariaeth adwerthu, mae nifer yr unedau cymharol yn fwy na nifer yr unedau cyfleustra o 26 i 6.

# Arolygon tref a dinas Sir Ddinbych: Dinbych




Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2022).




Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2022).

Gwerthiant – Nifer yr unedau manwerthu a werthwyd ers 2018: 12; Pris fesul troedfedd sgwâr (lle datgelir): rhwng £33.91 - £403.42 (Ffynhonnell: CoStar Group, Mehefin 2022);

Argaeledd – Rhent a hysbysebir y flwyddyn: rhwng £7,280 - £55,000 yn dibynnu ar faint a lleoliad; Tymor: hyd at 5 mlynedd neu i'w drafod (Ffynhonnell: CoStar Group, Mehefin 2022);

Prydlesi – Rhent a gafwyd fesul troedfedd sgwâr: £13.25; Eiddo ar y farchnad: 8 mis; Hyd y brydles: 60 mis; Misoedd rhydd o rent: 3 (Dim nodyn: mae'r holl ffigurau ar gyfer cyfrifiadau Sir Ddinbych a 'Canolrif'; Ffynhonnell: CoStar Group, Mehefin 2022)

# Arolygon tref a dinas Sir Ddinbych: Dinbych

## Cryfderau, gwendidau, cyfleoedd, bygythiadau

Defnyddir dadansoddiadau SWOT i nodi cryfderau, gwendidau, cyfleoedd, bygythiadau mewn busnes neu sefydliad, gan gynnwys cydrannau gofodol, gyda’r nod o greu newid neu dwf.

### Cryfderau

Tirlun a lleoliad y dref;

Asedau’r amgylchedd hanesyddol fel Castell Dinbych;

Manwerthwyr annibynnol;

Canol tref bach; a swyddfeydd y Cyngor Sir yn y dref.

### Gwendidau

Tagfeydd yng nghanol y dref ar adegau prysur;

Diffyg bwytai a llety; a

Lefel uchel o amddifadedd mewn rhannau o’r dref

### Cyfleoedd

Gwella’r cynnig o nwyddau cyfleus sydd ar gael yng nghanol y dref;

Gwella’r rheolaeth traffig ar hyd y

Stryd Fawr a Stryd y Dyffryn; a gwella’r arwyddion ar gyfer safleoedd o ddiddordeb hanesyddol.

### Bygythiadau

Mae llygredd aer a sŵn yn effeithio’n andwyol ar atyniad canol y dref; ac

Mae cwsmeriaid yn cael eu dargyfeirio at y parc manwerthu newydd y tu allan i ganol y dref.

# Arolygon tref a dinas Sir Ddinbych: Dinbych

## Beth i ganolbwyntio arno ar gyfer Dinbych?

Gwasanaethu'r bobl leol gyda chynnydd mewn siopau cyfleustra;

Gwella profiadau ymwelwyr, er enghraifft, gwella'r llety sydd ar gael; a

Gwelliannau i lif y traffig yng nghanol y dref.

## Cysylltedd

Gorsaf Drenau: Na

Gwasanaethau Bysiau: Cysylltiad da â rhwydweithiau rhanbarthol a lleol;

Cysylltiad i'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol: Na

Llwybrau teithio llesol lleol: Oes

Nifer y mannau parcio ceir y Cyngor yn y dref: 387; llefydd i bobl anabl: 1

# Llangollen


MUSIC SPORTS FEST 27 AUG
2-8 PM
OUTDOOR ACTIVITIES!
LLANGOLLEN ORG.UK
Arhosiad hir
Long stay
Arhosiad byr
Short stay

# Arolygon tref a dinas Sir Ddinbych: Llangollen

## Cyflwyniad

Mae Llangollen yn dref boblogaidd gyda thwristiaid ar lannau afon Dyfrdwy. Amcangyfrifwyd bod 4,164 o bobl yn byw yn yr ardal ar 30 Mehefin 2020. Mae Llangollen yn adnabyddus am ŵyl gerddoriaeth flynyddol yr Eisteddfod Ryngwladol, a gynhelir ym mis Gorffennaf. Mae mwy o atyniadau i dwristiaid yn cynnwys Rheilffordd Treftadaeth Llangollen i Gorwen a Safle Treftadaeth y Byd UNESCO Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte.

### Map canol tref




### Ystadegau economaidd-gymdeithasol

Mae incwm canolrifol aelwyd yn £27,355 yn ardal marchnad dai leol ‘Corwen a Llangollen; o’i gymharu â £27,498 yn Sir Ddinbych;

Roedd tua 799 o bobl 3 oed a hŷn yn gallu siarad Cymraeg yn yr ardal yn 2011. Mae hyn yn cyfateb i 19.5% o’r boblogaeth 3 oed a hŷn.

# Arolygon tref a dinas Sir Ddinbych: Llangollen

## Nodwedd y dref a’r nifer sy’n ymweld bob mis

Nodwedd: Gwyliau;

Beth mae hyn yn ei olygu: Mae’n cynnig profiadau i dwristiaid ac ymwelwyr dydd;

Angor: Yr amgylchedd naturiol a hanesyddol (e.e. Dinas Bran, Camlas Llangollen);

Dylid canolbwyntio strategaethau ar: Denu ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn.




Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2022).

# Arolygon tref a dinas Sir Ddinbych: Llangollen

## Arolwg blynyddol canol tref

Mae’r Cyngor yn cynnal arolwg blynyddol o brif ddefnyddiau canol trefi yng Nghorwen. Cofnodwyd ym mis Ionawr 2022 fod 35 uned manwerthu cymharol, 10 uned adwerthu cyfleustra, 49 o unedau gwasanaeth, 23 uned breswyl, 19 canolfan arall a 8 uned wag. Mae’r siart “Defnyddiau Canol Tref Llangollen (Ionawr 2022)” yn dangos yr un canlyniadau ond mewn canrannau o’r holl unedau (45 i gyd). Mae Atodiad 2 i Archwiliad Iechyd Canol Tref DCC 2022 yn cynnwys map manwl ar gyfer canol tref Llangollen sydd hefyd yn cyflwyno'r canlyniadau'n ofodol.

